**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Mai 13eg, 2024 am 7y.h. yn Neuadd Rhoshirwaun.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Nesta Roberts, Gareth Williams (Cyngor Gwynedd), Wenda Williams. Y clerc Phil Hughes.

**Yn y Gadair:** Y Cynghorydd Robert Williams hyd eitem 4. Etholwyd y Cyng Jaci Jones yn gadeirydd am y flwyddyn 2024-25 a gymerodd y gadair o eitem 4 ymlaen.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dewi Evans a Dafydd Williams.

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:**

Hoffai longyfarch Phil a Lowri Hughes ar enedigaeth eu mab, Tomi.

**3) Ethol cadeirydd ac îs gadeirydd am y flwyddyn 2024-25**

a) Ethol y cynghorydd Jaci Jones yn gadeirydd a chymerodd y gadair.

b) Ethol y cynghorydd Emlyn Jones yn Is-gadeirydd a gymerodd y gadair.

**4) Adroddiadau gan gynrychiolwyr ar gyrff allanol ac ethol cynrychiolwyr i gyrff allanol**

a)Neuadd y Rhiw - Adroddodd y Cyng Emlyn Jones ei fod dal yn trio cael rhywun i beintio'r neuadd ond yn cael trafferth ffeindio rhywun i wneud y gwaith. Ail benodwyd y Cyng Emlyn Jones yn gynrychiolydd.

b)Pwyllgor cae chwarae - Nid oedd y Cyng Gwenllian Hughes Jones, cynrychiolydd y Cyngor ar bwyllgor y cae chwarae yn bresennol. Penderfynwyd gohirio ethol tan mis nesaf.

c)Ysgol Crud y Werin - Ni oedd y Cyng Gwenllian Hughes Jones, cynrychiolydd y Cyngor ar lywodraethwyr yr ysgol yn bresennol i roi adroddiad.

ch)Canolfan Deunant - Adroddodd y Cyng Wenda Williams fod pethau yn mynd yn dda yn y ganolfan ac maent wedi derbyn grantiau gwelliannau. Ail benodwyd y Cyng Wenda Williams a Gareth Williams i gynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgor.

d)Unllais Cymru - Ailbenodwyd y Cyng Wenda Williams i gynrychioli'r Cyngor ac y Cyng Dewi Evans yn ail gynrychiolydd.

e)AHNE Llŷn - Mae'r Cyng Wenda Williams yn cynrychioli Cyngor, penderfynwyd ail-benodi gyda'r Cyng Dewi Evans yn ail gynrychiolydd.

f)Grwp Mynediad Dwyfor - Adroddodd y Cyng Emlyn Jones bod y cyfarfodydd wedi bod yn cael eu cynnal a'i fod wedi mynychu. Ailbenodi y Cyng Emlyn Jones am y flwyddyn 2024-25.

ff)Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor - Adroddodd y Cyng Emlyn Jones nad oedd wedi cael mynediad i'r cyfarfodydd Zoom. Penderfynwyd cysylltu efo nhw i weld os oes modd newid pwy sydd yn cael mynychu.

g)Canolfan Crud y Werin – Adroddodd y Cyng Dafydd Myrddin bod un cyfarfod wedi bod a bod grant wedi'i dderbyn i ail-wneud y toiledau yno. Ailbenodwyd Dafydd yn gynrychiolydd y cyngor.

**5) Adolygu Rheolau Cyllidol, Sefydlog a Mewnol y Cyngor ynghyd ag asesiad risg**
Penderfynodd y cyngor nad oedd angen gwneud newidiadau i'r dogfennau a bod pawb yn hapus efo'u cynnwys.

**6) Mabwysiadu côd ymddygiad**
Trafodwyd y cod ymddygiad a phenderfynwyd ei gadw fel ac y mae.

**7) Lwfansau Cynghorwyr**
Nid yw'r aelodau yn dymuno derbyn lwfansau.

**8)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Ebrill 8fed, 2024**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe lofnodwyd gan y Cadeirydd.

**9) Materion yn codi o'r cofnodion**

i. **Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
   a) **Parcio yn Aberdaron** – Mae warden traffig wedi bod yn Aberdaron ac wedi rhoi ticedi allan i bobl oedd yn parcio yn y mannau llwytho.
   b) **Gwrych yn tyfu i'r lon ym Mhencaerau**. - Mae'r archwiliwr Priffyrdd yn anfon llythyr gordyfiant i berchennog y tir.
   c) **Mwd ar y lon ar y tro am 'Groeslon Farm Isaf'**. - Mae'r Archwiliwr Priffyrdd wedi ymweld a'r safle a does dim cyfiawnhad, ar hyn o bryd, i weithredu. Ond bydd yr arolygwr yn cadw golwg ar y safle a gweithredu os bydd angen.
   d) **Safle Ysgol Llidiardau** –Mae Banc Datblygu Cymru wedi dod yn ôl at Gyngor Gwynedd i ddweud na fyddai modd iddyn nhw gynnig benthyciadau i hunan adeiladu ar

y safle ar hyn o bryd. Mae Cyngor Gwynedd bellach yn edrych ar opsiynau tai gwahanol ar gyfer y safle.

e) **Tŷ'r Ysgol, Deunant** – Mae pecyn tendro yn mynd allan y mis yma, penderfynwyd mynd ôl i gael diweddariad mewn ychydig o wythnosau.

ii. **Materion yr Eglwys Newydd** – Mae Gallaghers wedi dod yn ôl efo costau ychwanegol, mae'r Cyng Dewi Evans wedi anfon yn ôl atynt felly fydd angen disgwyl eu hymateb.

iii. **Y Fynwent** – Mae taliadau gan G.D Roberts angen ei wneud felly bydd angen cysylltu am hyn. Mae hefyd angen dweud mai'r cyngor sydd yn dewis lle mae beddi yn cael eu hagor a nid yw'n bosib rhoi dewis. Taliad o £40 yn llai am angladd Mrs Durrant a Mr Roberts, fe fydd angen cysylltu efo G.W. Parry.

iv. **Y Cae Chwarae** – Archwiliad y lle chwarae unai ar y 14eg neu 15fed o fis Mai.

**10) Gohebiaethau**

- **Cronfa prosiectau addas yn AHNE Llŷn £100,000 ar gael** – Rhywbeth i ystyried os oes gan unrhyw un rhywbeth i roi ymlaen.
- **Cyfarfod Pwyllgor Unllais Cymru Ardal Arfon/Dwyfor 24/04** - Mi gafodd ei anfon ymlaen ond ni wnaeth neb o'r cyngor ei fynychu.
- **Hyfforddiant i Gynghorwyr – 02/05 ac 11/06** - Er gwybodaeth i unrhyw un sydd â diddordeb i fynychu.
- **Cynlluniau Adfywio lleol 'Ardal Ni' Ddydd Mawrth, Mehefin 4ydd 2024 am 5 o'r gloch yn Neuadd Abersoch**. - Er gwybodaeth i unrhyw un sydd â diddordeb i fynychu.
- **Rhaglen Waith Mis Mai Cyngor Gwynedd - B4413 Rhoshirwaun 40-40, Bodwrdda – Aberdaron, Mur Poeth – B4413 Rhoshirwaun. Cychwyn 28 Mai** - Er gwybodaeth.

**11) Cynllunio**

C24/0325/30/TR - Llinell Drydan Ger Maes Pebyll Morfa Bach, Aberdaron, Pwllheli, LL53 8BD – Dim gwrthwynebiad.
C23/0909/30/CR - Addasiadau mewnol a chodi decin – Dim gwrthwynebiad.
C24/0290/30/DT - Cais Deiliaid Tŷ estyniad un llawr cefn – Dim gwrthwynebiad

**12) Ariannol**

*Derbyniadau*

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd (praesept): | £8,250 |

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Ffioedd banc HSBC | £5 |
| Nesta Roberts (CCTV trwy S/O) | £13.10 |
| Scottish Power (Trydan yr eglwys) | £43.95 |
| Phil Hughes (Cyflog) | £260 |
| HMRC (PAYE) | £65 |
| Un Llais Cymru (Aelodaeth) | £210 |
| Zurich (Insurance) | £2,171.91 |
| John Tudor: (Paratoi Paye) | £130 |
| Nesta Roberts (Costau gweinyddu) | £36.95 |

**13) Materion ffyrdd a llwybrau**

1) Dau dwll yn y lon – rhwng Cau Hen a Penbryn Uwchmynydd, wedi eu gweld ers pythefnos felly efallai wedi eu llenwi erbyn hyn.

2) Man-pasio ar y lon rhwng Meillionydd bach a phen lon Plas Newydd wedi blocio ac angen ei agor. Bydd angen cysylltu efo priffyrdd Cyngor Gwynedd.

3) Mae gordyfiant rhwng Pont Felin a Felin Uchaf yn Rhoshirwaun - bydd angen cysylltu efo priffyrdd Cyngor Gwynedd.

4) Mae gwastraff adeiladu yn cael ei wagio ger Tŷ Muriau, Rhiw (lon Plas yn Rhiw) penderfynwyd cysylltu ag Aneurin Parry yn Cyngor Gwynedd.

5) Man dal anifeiliaid ar lon Porth Neigwl, Rhiw penderfynwyd gofyn am arwydd rhybudd ar y ffordd.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Mehefin 10fed, 2024**

**yn Neuadd y Rhiw.**